


EICH ARDAL CHI. BETH SY'N BWYSIG?

ARDAL CANOLBARTH MÔN A LLIFON



ASESIAD O LESIANT GWYNEDD A MÔN

EISIAU
DWEUD
EICH
DWEUD?

Mae'r ddeddf newydd wedi sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer pob ardal awdurdod lleol er mwyn sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gweithio efo'i gilydd i greu gwell dyfodol i bobl Cymru.

Ar gyfer Gwynedd a Môn mae'r ddau Fwrdd wedi dod at ei gilydd i gydweithio, ac mae'n bartneriaeth sy'n cynnwys y cynghorau sir, y gwasanaeth tân ac achub, gwasanaeth iechyd a Chyfoeth Naturiol Cymru.


Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn wedi rhannu'r ardal gyfan yn 14 o ardaloedd llai. Mae gwaith ymchwil wedi cael ei wneud ar ran y Bwrdd ar bob un o'r 14 ardal er mwyn deall a dysgu mwy am lesiant yr ardaloedd hynny. Yn ogystal â'r data sydd ar gael rydym hefyd eisiau gwybod beth rydych chi yn feddwl am eich ardal a'ch cymuned – yr hyn sy'n bwysig i chi, beth sy'n dda a beth sydd angen ei wella. **Bydd cyfle i chi leisio eich barn trwy fynychu un o'r sesiynau galw heibio lleol neu mewn holiadur ar-lein. Mae mwy o wybodaeth a dyddiad pob sesiwn leol i weld ar www.LlesiantGwyneddaMon.org.**

Bydd y cyfnod ymgynghori yma yn dod i ben ar y 31^{ain} o Ragfyr 2016. Y gobaith yw y bydd gan y Bwrdd ddarlun cliriach wedyn o'n cymunedau, beth sy'n bwysig i bobl yn yr ardal yma o Gymru, a sut gall y partneriaid gyd-weithio i gynllunio gwasanaethau ar gyfer y dyfodol.

DAETH DEDDF LLESIANT
CENEDLAETHAU'R
DYFODOL [CYMRU] I
RYM AR Y 1^{AF} O EBRILL
2016. PWRPAS Y DDEDDF
YW GWELLA LLES
**CYMDEITHASOL,
ECONOMAIDD,
AMGYLCHEDDOL
A DIWYLLIANNOL
CYMRU.**

DYMA'R WYBODAETH
RYDYM WEDI EI GASGLU
AR ARDAL CANOLBARTH
MÔN A LLIFON HYD
YMA. YDYCH CHI'N
ADNABOD Y DARLUN
SYDD WEDI EI GREU
O'CH ARDAL CHI?

POBLOGAETH



PWY YW POBL ARDAL CANOLBARTH MÔN A LLIFON?

Mae **14,999** o bobl yn byw yn ardal Canolbarth Môn a Llifon. Mae hyn tua 21% o gyfanswm poblogaeth Ynys Môn.

O'i gymharu â gweddill Môn mae yna fwy o blant yn yr ardal yma, a mwy o bobl 25-44 oed. Mae llai o'r boblogaeth yn y grwpiau oedran hŷn yn enwedig rhwng 55 a 74 oed, sy'n wahanol i batrwm gweddill y sir.

Mae nifer y bobl sy'n byw yn ardal Canolbarth Môn a Llifon wedi cynyddu o 8% rhwng 1981 a 2011 - mae hyn yn weddol debyg i'r twf sydd wedi bod ym Môn a Chymru gyfan dros yr un cyfnod (5% ym Môn ac 11% drwy Gymru).

Nid yw'r twf yma wedi bod yr un fath ym mhob grŵp oedran. Mae nifer y bobl dros 80 oed yn Canolbarth Môn a Llifon wedi tyfu 160% mewn 30 mlynedd. Yn ystod yr un cyfnod mae 20% o ostyngiad yn nifer y plant dan 15 oed ac yn y nifer rhwng 16 a 39 oed yma.

Mae disgwyl i'r patrwm yma barhau dros yr 20 mlynedd nesaf gyda cynnydd o **80%** yn nifer y bobl dros 80 oed ar draws Môn - ond mae'n debyg y bydd gostyngiad o **12%** yn y boblogaeth dan 16 oed.



IAITH

Yn ôl cyfrifiad 2011 mae **65%** o bobl Canolbarth Môn a Llifon yn gallu siarad Cymraeg. Dau y cant mae'r ganran wedi gostwng ers cyfrifiad 1981. Mae'r gostyngiad yn yr ardal yn is na lefel Ynys Môn gyfan sydd wedi gweld gostyngiad o 5% (62% i 57%) yn yr un cyfnod.


Mae ffigyrau diweddar yn nodi mai 46% o bobl Ynys Môn sydd yn siarad Cymraeg yn ddyddiol, ac 11% yng Nghymru.

CYNNYDD
80%
OEDRAN
80+

2016
POBLOGAETH
YNYS MÔN
70,000



2036
POBLOGAETH
YNYS MÔN
68,000



PA MOR WYRDD YW'R ARDAL?


Mae cyfraddau ail-gylchu wedi codi ym Môn dros y 4 mlynedd diwethaf. Erbyn hyn mae **59.5%** o wastraff sy'n cael ei gasglu o dai, busnesau a chanolfannau ailgylchu yn Ynys Môn yn cael ei aildddefnyddio neu ailgylchu. Mae hyn yn cynnwys deunyddiau biowastraff sy'n cael eu compostio.

Mae tipio slei bach yn uwch ym Môn na gweddill Cymru - gyda 25.3 achos o dipio yn cael ei adrodd i bob 1000 o'r boblogaeth o gymharu â 10.2.

Ôl-troed Carbon – mae'r data yn dangos bod **84%** o dai yn ardal Canolbarth Môn a Llifon yn berchen ar o leiaf un car neu fan, o'i gymharu a 82% yn Ynys Môn a 77% yng Nghymru gyfan. Mae allyriadau carbon fesul pen o'r boblogaeth ar gyfer Môn yn **6.7kt CO₂** sydd ychydig yn uwch na lefel Cymru o **6.6kt CO₂**.

Mae newid yn yr hinsawdd yn achosi lefel y môr godi sy'n cyfrannu at y risg o lifogydd yn yr ardal. Yn Ynys Môn mae tua **970** o dai mewn perygl o lifogydd o fewn 4 ardal sydd wedi eu hadnabod i fod mewn perygl o lifogydd eithafol.

Yn ardal Canolbarth Môn a Llifon mae tua **200** o dai o dan fygythiad o lifogydd mewndirol gan afonydd yn yr ardal.



PA MOR LÂN YW'N STRYDOEDD?

Mae glendid strydoedd yn cael ei archwilio yn flynyddol gan Cadw Cymru'n Daclus. O'r strydoedd gafodd eu harchwilio yn yr ardal roedd **8%** heb sbwriel na gwastraff (Gradd A), **17%** gyda dim mwy na tri darn bach o sbwriel (Gradd B+) a **75%** ar y cyfan yn rhydd o sbwriel a gwastraff, gan eithrio rhai eitemau bach (Gradd B). Yn gyffredinol yn Ynys Môn mae'r strydoedd yn tueddu fod yn rhai Gradd B neu B+.




STRYDOEDD
GRADD A
8%

AMGYLCHEDD NATURIOL

Mae nifer o gynefinoedd pwysig ar Ynys Môn sy'n cynnwys rhostir isel ac arfordirol, corstiroedd, coetiroedd, a pherthi hynafol, yn ogystal â rhai o'r twyni tywod mwyaf yng Nghymru. Dyma un o gadarnleoedd rhai rhywogaethau prin, fel y Fadfall Ddŵr Gribog, y Wiwer Goch, Dyfrgi, Llygoden Bengron y Dŵr a'r Frân Goesgoch. Mae cynlluniau gwarchod mewn lle ar gyfer pob un ohonynt.

Mae un o warchodfeydd natur lleol Ynys Môn wedi ei lleoli yn yr ardal sef **Nant y Pandy**, Llangefni. Mae Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol **Gors Erddreiniog** a **Chors Bodeilio** hefyd yn yr ardal ac yn rhan o wlybtiroedd gwyllt Môn. Mae'r corsydd calchaid yma yn brin ar draws y Deyrnas Gyfunol bellach ac mae nifer o rywogaethau prin yn byw yma sydd wedi addasu'n benodol i gorsydd fel hyn.

Daliwyd y **minc** cyntaf ar Ynys Môn yn 2005, mae sawl un wedi cael eu dal ger cronfa ddŵr Llyn Cefni ers hynny. Mae ymdrechion i sicrhau na fydd y minc yn ymsefydlu ar yr ynys gan ei fod yn hela pysgod, anifeiliaid di-asgwrn-cefn, amffibiaid, adar a mamaliaid bychan, sy'n ei wneud yn fygythiad i fywyd gwyllt yr ardal.



CYMDEITHASOL

IECHYD DA?

Yn ardal Canolbarth Môn a Llifon mae tua **1,300** o gleifion wedi cofrestru fesul meddyg teulu. Mae hyn ychydig yn is na lefel Ynys Môn o **1,400** ac yn sylweddol is na ffigwr Cymru o **1,600**.

Os ydych yn byw yn yr ardal yma mae'n debyg y bydd rhaid i chi aros ar gyfartaledd rhwng **3:16** a **5:33 munud** am ambiwlans i ymateb i alwad ble mae bygythiad i fywyd.

Nid oes gwybodaeth benodol am iechyd poblogaeth Canolbarth Môn a Llifon. Mae'r ystadegau sy'n cael eu cynnwys yn y llyfryn hwn ar gyfer Ynys Môn gyfan - ond yn rhoi syniad i chi o gyflwr a phatrymau iechyd y sir.

Mae disgwyliad oes dyn adeg ei eni yn Ynys Môn yn **78.7 oed**, tra bod disgwyliad oes merch adeg ei geni yn **83 oed**.

Yn Ynys Môn, mae'r bwlch mewn disgwyliad oes adeg geni merched a dynion, rhwng y rhai mwyaf a lleiaf difreintiedig yn sylweddol llai na'r bwlch ar lefel Cymru gyfan - cymaint a 75% yn llai i ferched a 30% yn llai i dynion.


Mae **58%** o oedolion Ynys Môn dros bwysau neu yn ordew - mae hyn yr un canran â phoblogaeth Cymru gyfan. Mae canran Ynys Môn wedi cynyddu o **3%** ers 2011, tra bod ffigwr Cymru wedi aros yr un fath.

Yn Ynys Môn mae 32% o blant 4-5 oed dros eu pwysau neu yn ordew - sy'n uwch na ffigwr Cymru o 26%.

Ffactorau eraill sy'n effeithio ar ein hiechyd yw ysmegu ac yfed alcohol. Mae **22%** o bobl 16 oed neu'n hŷn Môn yn dweud eu bod yn ysmegu a 38% o bobl yn yfed mwy na **5** gwydr bach o win, neu tua 3 pheint o gwrw, ar y diwrnod yfed trymaf yn yr wythnos. Mae hyn yn debyg i weddill Cymru ac wedi aros yn gyson dros y blynyddoedd diweddar.

Mae'r gyfradd hunanladdiad yn Ynys Môn o 10.4 i bob 100,000 o'r boblogaeth, yn is na chyfradd hunanladdiad Cymru sydd yn 12.2 y flwyddyn.

Ym Môn, mae cyfradd beichiogi merched yn eu harddegau sydd o dan 18 oed yn 23.6 fesul 1000 o ferched 15-17 oed. Mae hyn yn debyg i ffigyrau Cymru.



HYD OES



22%
O BOBL DROS
16 OED YN
YSMYGU



CADW'N DDIOGEL



Mae cyfradd troseddau ardal Canolbarth Môn a Llifon fesul 1,000 o'i boblogaeth wedi gostwng o **123.4** i **94.1** rhwng 2011 a 2015. Mae'r nifer o droseddau yn Ynys Môn wedi dod lawr yn yr un cyfnod hefyd o **109.2** i **83.4**.

Mae ymddygiad gwrth-gymdeithasol ar i lawr ond yn dal yn cyfri am **35%** o'r holl droseddau yn ardal Canolbarth Môn a Llifon.

Mae **81%** o bobl yn credu ei bod yn saff i blant chwarae tu allan yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Y ffigwr cyfatebol ar gyfer Cymru ydi **64%**.

Yn ardal Canolbarth Môn a Llifon mae **46** o achosion tân y flwyddyn ar gyfartaledd. Mae **20%** o'r achosion hynny wedi'u cychwyn yn fwriadol.

46
ACHOS TÂN

20%
YN FWRIADOL

CADW MEWN CYSYLLTIAD

Mae'r canran sydd â mynediad i fand-eang yn cynyddu yn flynyddol – erbyn hyn dim ond **2%** o eiddo yn Ynys Môn sydd heb fynediad o gwbl.

Mae **16%** o gartrefi yn ardal Canolbarth Môn a Llifon heb gar neu fan, sy'n is na'r ffigwr ar gyfer Cymru gyfan sef 22%.

Yn ôl data cenedlaethol, mae Llanddyfnan, Llanfair-yn-Neubwll a Bodffordd ymhlith y 10% o ardaloedd Cymru lle mae'n cymryd fwyaf o amser i deithio at wasanaethau sylfaenol fel fferyllfeydd, siopau bwyd a meddygfeydd.

Mae unigrwydd yn gyflwr sy'n effeithio ar bob oedran, ond mae pobl hŷn yn fwy agored i risg. Yn ardal Canolbarth Môn a Llifon, o ystyried y gwahanol ffactorau sy'n cyfrannu at unigrwydd, mae risg uwch i bobl dros 65 oed yn ardal Tudur yn Llangefni. Mae'r risg is o unigrwydd yn yr ardal Y Fali.

HELPU'N GILYDD

Mae **11%** o'r boblogaeth yn ardal Canolbarth Môn a Llifon yn darparu o leiaf un awr yr wythnos o ofal di-dâl. Mae'r ffigwr yma yn debyg i ardaloedd eraill o Ynys Môn a gweddill Cymru.



ECONOMI A GWAITH


O dan y mesur ar gyfer pa mor gryf a chynhyrchiol yw economi (sef Gwerth Ychwanegol Crynswth), mae economi Môn yn fwy gwan yn gyffredinol nag economi Cymru. Ond, mae economi Cymru gyfan yn wan o'i gymharu â'r Deyrnas Gyfunol.

Mae **27%** o bobl sydd mewn gwaith, ond heb gymwysterau, yn gweithio yn y galwedigaethau elfennol yn ardal Canolbarth Môn a Llifon e.e. gwaith glanhau, casglu gwastraff, gweithio ar fferm, gweithio mewn ffatri. Mae hyn yn debyg iawn i'r patrwm ar draws yr ynys.

O bobl Canolbarth Môn a Llifon sydd heb unrhyw gymhwyster mae **45%** yn economaidd anweithgar – mae hyn yn golygu ddim yn gweithio nac yn chwilio am waith am amrywiol resymau. Dyma'r ail ffigwr isaf ymysg ardaloedd Ynys Môn.

Crefftau medrus sy'n cyflogi'r mwyaf o weithwyr yn ardal Canolbarth Môn a Llifon - sef **17%**. Mae **37%** o bobl sydd â gradd neu gyfatebol yn gweithio yn y maes proffesiynol, mae'r patrwm yma yn debyg i weddill Môn a Gwynedd.

Mae canran y bobl 16-64 oed sy'n hawlio'r Lwfans Ceisio Gwaith yn ardal Canolbarth Môn a Llifon ymysg yr uchaf o ardaloedd Ynys Môn. Ar ei uchaf y llynedd roedd **3.14%** o bobl oed gwaith yn hawlio'r lwfans. Nid yw ffigwr Ynys Môn yn gostwng yn is na **2.96%**, ac mae'n gyffredinol uchel o gymharu â Gwynedd a Chymru. Ar unrhyw adeg, mae o leiaf **2.15%** o bobl 16-64 oed Cymru gyfan, yn hawlio'r lwfans.



Mae cyfradd busnesau newydd sy'n cychwyn yn Ynys Môn yn uwch na Gwynedd ac yn debyg iawn i'r lefel yng Nghymru. Mae **65%** o gwmnïau yn Ynys Môn yn aros mewn busnes am o leiaf tair blynedd. Mae hyn yn uwch na lefelau Cymru sydd â **60%**. Mae'r gyfradd o'r busnesau sydd yn dod i ben hefyd yn uwch ar Ynys Môn (8%) na Gwynedd (7%), ac ychydig yn is na Chymru (9%).

Amaeth yw'r sector mwyaf yn Canolbarth Môn a Llifon – mae'n cyfrif am **19%** o gyflogwyr. Y nesaf ato ydi adeiladwaith ar 10%.

Mae **12%** o'r boblogaeth 16 oed a throsodd yn gweithio o adref, sydd ychydig yn llai na ffigwr Ynys Môn. Mae **42%** o'r boblogaeth dros 16 oed sy'n gweithio'n ardal Canolbarth Môn a Llifon, yn teithio mwy na chwe milltir i'r gwaith.

Mae canolrif cyflog wythnosol yn Ynys Môn tua **£422 yr wythnos**, sydd **8% yn uwch** na chanolrif cyflog trwy Gymru gyfan (£386 yr wythnos). Mae cyflogau merched **27% yn llai** na chyflog dynion yr ynys, ond mae'r bwlch yma yn is na'r bwlch ar gyfer Cymru sydd yn 33%.

£422

YW CANOLRIF CYFLOG WYTHNOSOL YN YR ARDAL

65%

O GWMNIAU MEWN BUSNES AM 3 BLYNEDD+


SGILIAU AM OES

Mae **60%** o ddisgyblion ardal Canolbarth Môn a Llifon yn cael 5 TGAU A* i C mewn pynciau sy'n cynnwys Cymraeg neu Saesneg a Mathemateg – mae hyn yn uwch na ffigwr Ynys Môn o 57% a Chymru sy'n 58%.


Mae llai o ddisgyblion sy'n derbyn prydau am ddim yn cael y graddau hyn yn y pynciau craidd o'i gymharu â disgyblion eraill. Mae bwlch o 19% rhwng y disgyblion yma yn ardal Canolbarth Môn a Llifon – ond mae'r bwlch yn llai na'r ffigwr ar gyfer Ynys Môn sy'n **25%** a Chymru sy'n **33%**.

2.2% o bobl ifanc Môn sy'n gadael yr ysgol sydd ddim yn parhau i addysg uwch neu bellach, sydd ddim yn mynd ymlaen i hyfforddiant nac yn cael swyddi. Mae hyn yn is na'r ffigwr Cymreig o 2.8%.

Mae gan **25%** o boblogaeth ardal Canolbarth Môn a Llifon gymhwyster gradd neu gyfatebol, sydd yn debyg iawn i ffigwr Ynys Môn. **24%** o bobl yr ardal sydd heb unrhyw gymhwyster – eto mae hyn yn debyg i weddill Ynys Môn a Gwynedd.



60% GRADDAU A*-C



25% GYDA GRADD



YR ARIAN YN EICH POCED

Mae arian sydd ar gael i'w wario ar ôl trethi a chostau talu am gartref gan bobl ym Môn, yn **£16,238** y pen y flwyddyn, sy'n £936 yn uwch na Chymru gyfan.

Yn ardal Canolbarth Môn a Llifon, mae **18%** o ddisgyblion ysgol gynradd yn hawlio prydau ysgol am ddim sydd yr un faint a ffigwr Ynys Môn. Mae'r ffigwr yn gostwng o un y cant wrth i ddisgyblion fynd i ysgol uwchradd – mae hyn yn debyg i'r patrwm ar gyfer gweddill Ynys Môn a Chymru.

Mae **16%** o aelwydydd yn ardal Canolbarth Môn a Llifon mewn tlodi tanwydd, sy'n cymharu â 18% ar Ynys Môn â 14% yng Nghymru. Mae 4% o gartrefi yn yr ardal heb wres canolog – dwbl ffigwr Cymru o 2%.

Mae pris canolrif eiddo yn Canolbarth Môn a Llifon yn **£158,000**. Yn yr ardal, mae canolrif incwm aelwydydd yn **£24,312**, ond mae angen £34,286 i fforddio prynu tŷ ar bris lefel mynediad i'r farchnad. Mae hyn yn golygu bod **70.8%** o deuluoedd Canolbarth Môn a Llifon wedi eu prisio allan o'r farchnad.

71%

O BOBL
LEOL WEDI
PRISIO
ALLAN O'R
FARCHNAD

CANOLRIF
PRIS Tŷ
£158K

CANOLRIF
INCWM
£24K

DIWYLLIANNOL



CADW'N HEINI

Mae **46%** o ddisgyblion Ynys Môn wedi ymweld â chanolfan hamdden – sy'n uwch na lefel Cymru o 42%, ond yn is na Gwynedd sydd ar 53%. Mae **50%** o blant Ynys Môn hefyd yn cymryd rhan mewn gweithgaredd chwaraeon 3 gwaith neu fwy yr wythnos – mae hyn yn cymharu â 48% yng Nghymru.

Mae **37%** o oedolion yn Ynys Môn yn dweud eu bod yn actif am **o leiaf 30 munud** ar bump neu fwy achlysur mewn wythnos – mae hyn yn uwch na lefel Cymru o 31%, ond yn debyg iawn i Gwynedd. Mae'r canran yma wedi codi yn raddol dros y blynyddoedd diwethaf.



37%
O OEDOLION YN
CADW'N ACTIF AM
O LEIAF 30 MUNUD
5 GWAITH YR
WYTHNOS



AMSER HAMDDEN

Mae **60%** o oedolion yn Ynys Môn wedi mynychu digwyddiad celfyddydol yn ystod y flwyddyn, gyda **34%** wedi ymweld ag amgueddfa a **57%** wedi ymweld â llefydd hanesyddol. Mae hyn yn debyg i Wynedd a gweddill Cymru.

57%
WEDI
YMWELD
Â LLE HANESYDDOL



AM FWY O
WYBODAETH...

WWW.LLESIANTGWYNEDDAMON.ORG
01766 771000

Gofynnwch am
Rheolwr Partneriaeth Gwynedd a Môn